

**Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Cynigion
Comisiynydd y Gymraeg**

**Standards relating to the Welsh language: the
Welsh Language Commissioner's proposals**

28/11/2012

	<p>SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU</p> <p>SERVICE DELIVERY STANDARDS</p>
1	<p>Wrth gyflenwi gwasanaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, a b) Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>In the delivery of services:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The use of the Welsh language must be promoted and facilitated, and b) The Welsh language must be treated no less favourably than the English language.
2	<p>Rhaid gweithredu trefn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'n ddwyieithog mewn amgylchiadau pan nad yw iaith y defnyddiwr yn hysbys i'r sefydliad.</p> <p>Procedures must be implemented to deliver services bilingually in circumstances where the user's language is unknown to the organization.</p>
3	<p>O'r cyswllt cyntaf â'r defnyddiwr gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid ei gwneud yn amlwg i'r defnyddiwr gwasanaeth y croesewir defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, mewn unrhyw fodd, a b) Rhaid gwneud cynnig rhagweithiol er mwyn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth y gellir defnyddio'r Gymraeg, a c) Rhaid peidio disgwyl i'r defnyddiwr ofyn am wasanaeth Cymraeg. <p>From the initial contact with the service user:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) It must be made evident to the service user that using Welsh or English is welcomed, by any means, and b) An active offer must be made in order to make it known to the service user that Welsh may be used, and c) The user must not be expected to ask for a service in Welsh.
4	<p>Er mwyn cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg i'r defnyddiwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid canfod arferion ieithyddol y defnyddiwr gwasanaeth cyn gynted â phosib, a b) Rhaid cofnodi arferion ieithyddol y defnyddiwr gwasanaeth cyn gynted â phosib, a c) Rhaid gwneud trefniadau fel y bo'r cofnod ar gael i bersonau y cred y sefydliad sy'n berthnasol i bwrpas cyflenwi'r gwasanaethau y mae'r cofnod yn cyfeirio atynt, a d) Rhaid darparu pob gwasanaeth yn unol â chofnod iaith y defnyddiwr ar sail barhaus o ddyddiad y cofnod ymlaen, a e) Rhaid sicrhau na fydd rhaid i'r defnyddiwr wneud unrhyw beth ychwanegol er mwyn cyrraedd at y gwasanaeth Cymraeg.

	<p>In order for services to be provided in Welsh to the user:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The service user’s language practices must be identified as soon as possible, and b) The service user’s language practices must recorded as soon as possible, and c) Arrangements must be made so that the record is available to persons that the organization believes to be relevant to the purpose of delivering the services that the record relates to, and d) All services must be provided according to the user’s language record on an ongoing basis from the date of the record onwards, and e) It must be ensured that the user must not have to do anything further to gain access to the Welsh language service.
5	<p>Rhaid gwneud trefniadau addas i gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Lle nad oes modd i’r sefydliad gyflenwi ei holl wasanaethau yn Gymraeg yn syth:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid pennu beth yw uchafswm y cyfnod o amser y bydd yn rhaid aros am wasanaethau Cymraeg, a b) Rhaid datgan beth yw uchafswm y cyfnod o amser y bydd yn rhaid aros am wasanaethau Cymraeg. <p>Appropriate arrangements must be made to deliver services in Welsh. Where the organization cannot deliver all its services in Welsh without delay:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The maximum waiting time for Welsh-medium services must be specified, and b) The maximum waiting time for Welsh-medium services must be declared.
6	<p>Wrth gyflenwi gwasanaethau, rhaid parchu iaith y sawl sy’n dewis cyfathrebu yn Gymraeg a rhaid ymdrin â hwy yn effeithiol ac yn gwrtais.</p> <p>In the delivery of services, those who choose to communicate in Welsh must have their language respected and they must be dealt with effectively and politely.</p>
7	<p>Rhaid i bob testun a gyhoeddir neu gyfathrebiad (at ddefnydd parhaol neu dros dro, ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu’n electronig neu ar lafar) sy’n cyflenwi gwasanaethau, yn ymwneud â gwasanaethau neu sy’n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau, fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth wneud hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg o ran maint, ansawdd, eglurder nac amlygrwydd testun neu gyfathrebiad, a b) Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg o ran amseroedd cyflenwi, gan gynnwys cyhoeddi testunau neu anfon cyfathrebiadau.

	<p>All text published or communication (for permanent or temporary use, on paper or on other materials or electronically or spoken) which deliver services, relate to services or assist service users, must be in Welsh and English. In so doing:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The Welsh language must be treated no less favourably than the English language in terms of the size, quality, clarity and prominence of text or communication, and b) The Welsh language must be treated no less favourably than the English language with regards to delivery times, including the publishing of texts or the delivery of communications.
8	<p>Wrth gynnal cyfathrebiad personol (boed hynny yn y gweithle, yn y cartref, neu drwy fodd arall; yn gyfarfodydd preifat neu gyhoeddus; yn rhai unigol neu yn rhai torfol) wrth gyflenwi gwasanaethau, yn ymwneud â gwasanaethau neu sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid i'r cyfathrebiad fod yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol ag arferion ieithyddol y defnyddiwr, a b) Rhaid bod â threfniadau parod ar gyfer cynnal cyfarfod neu gyfathrebiad o unrhyw fath ar fyr rybudd yn y Gymraeg pe cyfyd yr angen. <p>When maintaining personal communication (be it in the workplace, in the home or by other means; in private or public meetings; individually or in gatherings) in the delivery of services, in relation to services or in the assistance of service users:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The communication must be in Welsh or English in accordance with the user's language practices, and b) Arrangements must be in place to hold a meeting or communication of any kind at short notice in Welsh, should the need arise.
9	<ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid i unrhyw gontractau neu gytundebau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau neu nwyddau, neu sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau) sicrhau na fydd y canlyniad yn llai ffafriol na'r hyn y gellid fod wedi'i ddisgwyl pe byddai'r gwasanaeth wedi'i gyflenwi'n uniongyrchol gan y sefydliad ei hun, a b) Rhaid i hyn gynnwys termau a/neu amodau a fydd yn rhwymo'r trydydd parti i'r contract ac i bob safon cyflenwi gwasanaethau perthnasol a rhaid sicrhau gallu'r trydydd parti (o flaen llaw ac ar sail barhaus) i gydymffurfio ag unrhyw safonau cyflenwi gwasanaethau perthnasol. <ul style="list-style-type: none"> a) Any contracts or agreements involving service or goods delivery, or which assist service users (including joint working arrangements between organizations), must ensure that the result is not less favourable than that which could have been expected had the service or goods been delivered directly by the organization itself, and b) This must include terms and/or conditions binding the third party to the contract and to all relevant service delivery standards and the third party's ability to comply with any relevant service delivery standards must be ensured (in advance and on an ongoing basis).

10	<p>a) Rhaid i'r sefydliad benderfynu ar egwyddorion i'w dilyn wrth osod termau a/neu amodau yn rhwymo'r trydydd parti i safonau cyflenwi gwasanaethau perthnasol wrth ddyfarnu grantiau, benthyciadau neu nawdd, a</p> <p>b) Rhaid i'r egwyddorion a bennir hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>c) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>a) The organization must determine principles to be followed when setting terms and/or conditions binding the third party to relevant service delivery standards when awarding grants, loans or sponsorship, and</p> <p>b) The principles determined must promote and facilitate the use of the Welsh language, and</p> <p>c) Must treat the Welsh language no less favourably than the English language.</p>
11	<p>a) Rhaid i'r sefydliad gyhoeddi a'i gwneud yn amlwg sut y cyflenwir gwasanaethau Cymraeg yn unol â'r safonau gofynnol gan roi gwybod i'r defnyddiwr am gyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg, a</p> <p>b) Rhaid hysbysu'r cyhoedd hefyd sut y gallant gyflwyno cwyn am unrhyw fethiant gan y sefydliad i gydymffurfio â safon benodedig.</p> <p>a) The organization must publish and make it obvious how Welsh language services are provided in accordance with the requisite standards and provide the user with information about opportunities to use Welsh language services, and</p> <p>b) The public must also be informed about how they may complain about any failure by the organization to comply with a specified standard.</p>
12	<p>Pan godir tâl am ddefnyddio gwasanaeth neu pan gyhoeddir testun, cyfathrebiad neu ddeunydd â phris arno:</p> <p>a) Ni chaiff pris y gwasanaeth Cymraeg fod yn uwch na phris y gwasanaeth Saesneg, ac</p> <p>b) Ni chaiff pris testun, cyfathrebiad neu ddeunydd Cymraeg fod yn uwch na phris testun, cyfathrebiad neu ddeunydd Saesneg, ac</p> <p>c) Ni chaiff pris testun, cyfathrebiad neu ddeunydd dwyieithog fod yn uwch na phris fersiwn uniaith.</p> <p>When a fee is charged for using a service or when text, communication or material with a price on it are published:</p> <p>a) The price of the Welsh service may not be higher than that of the English service, and</p> <p>b) The price of Welsh text, communication or material may not be higher than that of English text, correspondence or material, and</p> <p>c) The price of bilingual text, communication or material may not be higher than that of a single language version.</p>

	<p>SAFONAU LLUNIO POLISI</p> <p>POLICY MAKING STANDARDS</p>
1	<p>Wrth lunio polisiau ac ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg, a b) Rhaid ystyried lles cymdogaethau a rhwydweithiau Cymraeg <p>Rhaid gwneud hyn â'r nod o:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a b) Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>In policy making and in all aspects of policy decision-making:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) The needs of Welsh speakers must be considered, and b) The well-being of Welsh language communities and networks must be given considered. <p>This must be done with the aim of:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Promoting and facilitating the use of the Welsh language, and b) Ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.
2	<p>Wrth wneud neu ddiwygio penderfyniad polisi, rhaid ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel y bo'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a b) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>In making or amending a policy decision, consideration must be given to:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) How the decision could be made so that it has positive or increased positive effects on opportunities for persons to use the Welsh language, and b) How the decision could be made so that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.
3	<p>Wrth wneud neu ddiwygio penderfyniad polisi, rhaid ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg <p>In making or amending a policy decision, consideration must be given to:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) How the decision could be made so that it does not have adverse effects on the opportunities for persons to use the Welsh language.

4	<p>Rhaid sicrhau bod trefniadau cyson ac addas yn eu lle i asesu effeithiau a chanlyniadau penderfyniad polisi ar y Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cyn i'r penderfyniad polisi gael ei wneud, ac b) Wrth ddiwygio'r penderfyniad polisi, ac c) Yn rheolaidd wrth i'r penderfyniad polisi gael ei roi mewn grym. <p>It must be ensured that consistent and suitable arrangements are in place to assess a policy decision's effects and consequences on the Welsh language:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Before the policy decision is made, and b) When amending the policy decision, and c) Periodically as the policy decision is implemented.
5	<p>Rhaid ystyried canfyddiadau unrhyw asesiad effaith penderfyniad polisi (yn unol â safon 4), a:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Rhaid rhoi mesurau priodol yn eu lle i liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg neu i wella'r elfennau positif, a b) Rhaid cyhoeddi (ar bapur neu ar ddeunyddiau eraill neu yn electronig) unrhyw fesurau lliniarol a roddwyd yn eu lle sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi a'i effeithiau ar y Gymraeg, a c) Rhaid cyhoeddi'r mesurau lliniarol cyn gweithredu'r penderfyniad polisi. <p>Consideration must be given to the findings of policy decision impact assessments (in accordance with standard 4), and:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Appropriate measures must be put in place to alleviate any adverse effects on the Welsh language or to improve the positive elements, and b) Any alleviating measures put in place relating to a policy decision and its effects on the Welsh language must be published (on paper or on other materials or electronically), and c) The alleviating measures must be published before the policy decision is implemented.
6	<p>Wrth ymgynghori yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi, dylid sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Bod y rhai yr ymgysylltir â hwy yn gynrychioliadol o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac b) Os yw ymgynghori yn gyfyngedig i sefydliadau dethol, dylid sicrhau bod sefydliadau cynllunio ieithyddol priodol yn rhan o'r broses. <p>In consultation during the policy development period, it should be ensured that:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Those who are engaged with are representative of people who use the Welsh language, and b) If consultation is restricted to selected organizations, it should be ensured that appropriate language planning bodies are involved in the process.

7	<p>Rhaid sicrhau bod strwythur a phroffil staffio unrhyw wasanaeth neu fenter newydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau a chyflawni gweithgareddau perthnasol yn Gymraeg, ac b) Yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>It must be ensured that the staffing structure and profile of any new service or enterprise:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Promotes and facilitates the use of the Welsh language when providing services and delivering relevant activities in the Welsh language, and b) Ensures that the Welsh language is treated no less favourably than English.
8	<p>Er mwyn cael digon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i alluogi'r sefydliad i weithredu yn unol â safonau penodedig, rhaid hybu a hwyluso gweithlu dwyieithog trwy lunio polisïau addas, gan gynnwys (heb eithriad):</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Gweithredu mesurau recriwtio a dethol penodol a sefydlog i sicrhau bod unigolion â sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu recriwtio i swyddi sydd â gofynion iaith Gymraeg, fel y bo gofynion ieithyddol y swyddi a sgiliau'r unigolion hynny'n cyfateb i'w gilydd b) Dynodi pa swyddi yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer a pha rai yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar eu cyfer c) Cynllunio a chynnig hyfforddiant ieithyddol addas ac ôl-ofalaeth priodol i staff fel rhan o drefniadau datblygu corfforaethol y sefydliad er mwyn sicrhau lefelau sgiliau priodol d) Cynllunio a darparu hyfforddiant priodol i sicrhau bod gan reolwyr o fewn y sefydliad y sgiliau angenrheidiol i reoli a gweithredu mewn sefydliad lle defnyddir mwy nag un iaith. <p>In order to ensure sufficient Welsh speakers with the appropriate skills to enable the organization to operate in accordance with specified standards, a bilingual workforce must be promoted and facilitated by making suitable policies, including (without exception):</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Implementing specific and consistent recruitment and selection measures to ensure that individuals with Welsh language skills are recruited to posts with Welsh language requirements, so that the language requirements of posts and the skills of the individuals correspond b) Designating for which posts Welsh language skills are considered essential and those for which Welsh language skills are considered desirable c) Planning and offering suitable language training and appropriate aftercare to staff as part of the organization's corporate development arrangements in order to ensure appropriate skill levels d) Planning and providing appropriate training to ensure that managers within the organization have the necessary skills to manage and implement in an organization where more than one language is used.

9

Rhaid pennu'r swyddogaethau canlynol i uwch swyddog a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n unol â safonau penodedig wrth wneud ei weithgareddau perthnasol:

- a) Paratoi a dosbarthu cyfarwyddiadau a chanllawiau er mwyn gwneud gofynion gweithredu a chydymffurfio â safonau penodedig yn glir:
 - i. i bawb ar draws y sefydliad
 - ii. i unrhyw berson sy'n gweithredu safonau mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol y sefydliad
 - iii. i unrhyw un arall sy'n gwneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol y sefydliad, neu mewn cysylltiad â hwy
- b) Cynllunio a darparu rhaglen briffio strwythuredig i staff er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ddigonol o ofynion safonau penodedig a'r disgwyliadau sydd arnynt i'w gweithredu.
- c) Sicrhau bod isadeiledd yn ei le a fydd yn diwallu anghenion gweithredu'r sefydliad yn unol â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio, gan gynnwys:
 - i. cyfleusterau technoleg gwybodaeth (addasu, adnewyddu ac ail osod systemau, rhaglenni a meddalwedd)
 - ii. cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd (gwasanaeth mewnol a/neu ddefnydd o ddarparwyr allanol, a chyfarwyddyd i staff)
 - iii. darpariaethau hyfforddiant (a datblygiad a chefnogaeth) galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwersi Cymraeg
- d) Arolygu ac adrodd ar gydymffurfiaeth y sefydliad â phob un o'r safonau penodedig.

The following functions must be designated to a senior officer who will be responsible for ensuring that the organization operates in accordance with specified standards when undertaking its relevant activities:

- a) Preparing and distributing instructions and guidelines in order to make the requirements for implementing and complying with specified standards clear :
 - i. to all persons across the organization
 - ii. to any persons who implement standards in relation to the organization's relevant activities
 - iii. to anybody else who undertakes activities for the purpose of the organization's relevant activities, or in relation to them
- b) Planning and providing a structured briefing programme for staff in order to ensure sufficient awareness of the requirements of specified standards and the expectation that they will implement them.

- c) Ensuring that infrastructure is in place to meet the organization's implementation needs in accordance with the compliance notice, including:
 - i. information technology facilities (adapting, renewing, and replacing systems, programmes and software)
 - ii. translation and interpretation facilities (an internal service and/or the use of external suppliers, and guidance for staff)
 - iii. vocational training (and development and support) provisions through the medium of Welsh, and Welsh lessons
- d) Monitoring and reporting the organization's compliance with each of the specified standards.

10 Rhaid cymryd pob cam rhesymol a phriodol i lunio neu i gryfhau polisïau a mentrau penodol sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Gallai'r camau hyn gynnwys:

- a) Gweithio gyda mudiadau cymunedol a gwirfoddol i wneud defnydd o'r Gymraeg neu i gynyddu'r defnydd ohoni
- b) Annog eraill, boed hwy yn gyrff cyhoeddus neu yn rhai preifat neu'n unigolion, i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r sefydliad
- c) Gweithio â grwpiau targed penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- d) Creu cysylltiadau â grwpiau sydd â diddordeb penodol yn y Gymraeg a phartneriaid eraill i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- e) Edrych am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- f) Codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg ei dysgu a'i defnyddio

Wrth weithredu'r mesurau uchod rhaid cymryd sylw o holl ymrwymadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

All reasonable and appropriate steps must be taken to make or to strengthen specific policies and enterprises that create or promote opportunities to use the Welsh language as a community language. These steps may include:

- a) Working with community and voluntary bodies to make or to increase the use of the Welsh language
- b) Encouraging others, be they public or private bodies or individuals, to use the Welsh language in their dealings with the organization
- c) Working with specified target groups to increase the use of the Welsh language
- d) Creating contacts with Welsh language specific interest groups and other partners to strengthen the Welsh language as a community language
- e) Seeking opportunities to use the Welsh language in the workplace
- f) Raising awareness of the value of the Welsh language and increasing opportunities for non-Welsh-speakers to learn and use it.

	<p>In putting the above measures into effect due regard must be given to all strategic commitments made by the Welsh Government in relation to the Welsh language.</p>
11	<p>Rhaid i'r sefydliad fabwysiadu a chyflwyno delwedd gorfforaethol ddwyieithog gyflawn, gan gynnwys enw, cyfeiriad, logo, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunyddiau a nwyddau.</p> <p>The organization must adopt and present a fully bilingual corporate image, including a name, address, logo, corporate slogan, visual identity and any other standard information used on materials and goods.</p>

SAFONAU GWEITHREDU OPERATIONAL STANDARDS	
1	<p>Rhaid i'r sefydliad hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth y gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Wrth i aelod o staff wneud ei waith b) Wrth i fwy nag un aelod o staff weithio gyda'i gilydd c) Wrth i eraill weithio mewn cysylltiad â'r aelod o staff <p>The use of the Welsh language must be facilitated by the organization in work and at work:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) As a member of staff does his work b) As more than one member of staff work together c) As others work in connection with the member of staff
2	<p>Rhaid ei gwneud yn amlwg i aelodau staff ac eraill, drwy hysbysiad ymlaen llaw, y croesewir defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth y gwaith, a rhaid cymryd pob cam rhesymol i hwyluso ei defnydd.</p> <p>It must be made evident to members of staff and others, by way of prior notice, that using Welsh is welcome in work and at work, and all reasonable steps must be taken to facilitate its use.</p>
3	<p>Rhaid codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r cyfleoedd perthnasol sydd ar gael i alluogi aelodau staff ac eraill i weithio yn Gymraeg.</p> <p>Awareness must be raised of the relevant procedures and opportunities available to enable members of staff and others to work through the medium of the Welsh language.</p>
4	<p>Rhaid cymryd camau cadarnhaol i gael gwared â rhwystrau sy'n atal aelodau staff ac eraill rhag gweithio yn Gymraeg.</p> <p>Positive action must be taken to eliminate obstacles that prevent members of staff and others from working through the medium of the Welsh language.</p>
5	<p>Rhaid i'r sefydliad ddatblygu ei isadeiledd i gynnal aelodau o staff sydd am weithio yn Gymraeg, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu):</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cyfleusterau technoleg gwybodaeth (unigol a thraws-sefydliad) b) Gwasanaethau canolog ac adnoddau dynol c) Dogfennaeth statudol cyflogaeth d) Trefniadau rheoli perfformiad a hyfforddiant e) Cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig f) Hyfforddiant

The organization must develop its infrastructure in order to assist members of staff who want to work through the medium of the Welsh language including (without limitation):

- a) Information technology facilities (personal and organization wide)
- b) Central services and human resource services
- c) Statutory employment documentation
- d) Performance management and training arrangements
- e) Interpretation and translation facilities
- f) Training

SAFONAU HYBU

PROMOTION STANDARDS

1 Rhaid cymryd pob cam rhesymol a phriodol i lunio neu i gryfhau polisiau a mentrau penodol sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Gallai'r rhain gynnwys:

- a) Gweithio â mudiadau cymunedol a gwirfoddol i wneud neu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- b) Annog eraill, boed hwy yn gyrff cyhoeddus neu yn rhai preifat neu'n unigolion, i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r sefydliad
- c) Gweithio â grwpiau targed penodol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- d) Creu cysylltiadau â grwpiau sydd â diddordeb penodol yn Gymraeg a phartneriaid eraill i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- e) Edrych am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- f) Codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg ei dysgu a'i defnyddio

Wrth weithredu'r mesurau uchod rhaid cymryd sylw o holl ymrwymadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

All reasonable and appropriate steps must be taken to make or to strengthen specific policies and enterprises that create or promote opportunities to use the Welsh language as a community language. These steps may include:

- a) Working with community and voluntary bodies to make or to increase the use of the Welsh language
- b) Encouraging others, be they public or private bodies or individuals, to use the Welsh language in their dealings with the organization
- c) Working with specified target groups to increase the use of the Welsh language
- d) Creating contacts with Welsh language specific interest groups and other partners to strengthen the Welsh language as a community language
- e) Seeking opportunities to use the Welsh language in the workplace
- f) Raising awareness of the value of the Welsh language and increasing opportunities for non-Welsh-speakers to learn and use it

In putting the above measures into effect due regard must be given to all strategic commitments made by the Welsh Government in relation to the Welsh language.

2 Rhaid cymryd camau cadarnhaol i hybu neu i ymuno â gweithgareddau sy'n hybu neu'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

Positive steps must be taken to promote or join in activities that promote or facilitate the broader use of the Welsh language.

3 Rhaid hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud ag eraill, pan yn gweithredu mewn partneriaeth, pan yn gweithredu swyddogaethau statudol a rheoleiddiol neu pan yn gweithredu drwy drefniant arall. Wrth weithio gydag eraill rhaid i'r sefydliad gadw at safonau penodedig.

The use of the Welsh language must be promoted and facilitated when dealing with others, when operating in partnership, when operating statutory and regulatory functions or when operating through other arrangements. When working with others the organization must adhere to specified standards.

SAFONAU CADW COFNODION

RECORD KEEPING STANDARDS

- 1 Rhaid i'r sefydliad gadw cofnod o'i holl drefniadau cydymffurfio mewn perthynas â safonau penodedig er mwyn:
- a) Dangos y bydd y sefydliad wedi mabwysiadu'r dyletswyddau a osodwyd arno yn yr hysbysiad cydymffurfio
 - b) Tystio y cafodd trefniadau addas eu gosod yn eu lle i weithredu pob safon penodedig
 - c) Adolygu gweithrediad a chydymffurfiaeth â safonau yn erbyn dyddiadau gosod yr hysbysiad cydymffurfio, ac
 - d) Adolygu ansawdd gweithgareddau cyfrwng Cymraeg gan roi sylw dyledus i:
 - i. amseriad, a
 - ii. cysondeb gweithrediad ar draws y sefydliad, a
 - iii. profiad y defnyddiwr
 - e) Adolygu'r graddau yr hybwyd cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg wrth i'r sefydliad ddarparu gwasanaethau, gwneud ei weithgareddau neu fel rhan o'i fusnes, yn unol â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio.
 - f) Ymgymryd ag unrhyw ofynion penodol y cyfeirir atynt yn y safonau cadw cofnodion neu ofynion yn unol â chymal 27 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
 - g) Disgrifio'n glir pa drefniadau ac amcanion gwella sydd yn eu lle i gwrdd ag ymrwymadau'r safonau penodedig.

The organization must keep a record of its compliance arrangements in relation to specified standards so that it can:

- a) Demonstrate that it has adopted the duties placed on it by way of the compliance notice
- b) Evidence that appropriate arrangements have been put in place in order to implement all specified standards
- c) Review implementation and compliance with standards against compliance notice imposition dates, and
- d) Review the quality of Welsh language activities giving due regard to:
 - i. timeliness, and
 - ii. consistency of operation across the organization, and
 - iii. user experience
- e) Review the extent opportunities to use the Welsh language were promoted as the organization delivered its services, conducted its activities or as part of its business, in accordance with the requirements set out in the compliance notice
- f) Undertake any specific requirements referred to in the record keeping standards or in accordance with section 27 of the Welsh Language Measure (Wales) 2011
- g) Clearly describe what arrangements and improvement objectives have been put in place in order to meet the commitments of the specified standards.

2

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, i'r graddau y bônt yn rhai penodedig, rhaid cadw cofnodion manwl o'r trefniadau a osodwyd yn eu lle mewn cysylltiad â'r canlynol:

- a) Holl ofynion y safon cofnod arferion ieithyddol (safon rhif 4)
- b) Uchafswm y cyfnod o amser y bydd yn rhaid aros am wasanaethau Cymraeg (safon rhif 5)
- c) Cynnal cyfathrebiad personol yn Gymraeg (safon rhif 7)
- d) Contractau sy'n cynnwys termau a/neu amodau iaith (safon rhif 9)
- e) Yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth ddyfarnu grantiau, benthyciadau a nawdd (safon rhif 10)
- f) Y modd yr amlygir cyfleon i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg (safonau rhif 3 ac 11)
- g) Gwybodaeth gymharus am y pris gaiff ei godi - am destun, cyfathrebiadau neu ddeunydd a phris arno neu am wasanaethau y codir tal amdanynt, ar sail y meini prawf isod (safon rhif 12):
 - i. Cymraeg
 - ii. Saesneg
 - iii. Dwyieithog

In order to ensure compliance with service delivery standards, to the extent to which they are specified, detailed records must be kept of the arrangements put in place in connection with the following:

- a) All requirements of the standard relating to the register of language practices (standard no. 4)
- b) The maximum waiting time for Welsh-medium services (standard no. 5)
- c) Undertaking personal communication in Welsh (standard no. 7)
- d) Contracts which include linguistic terms and/or conditions (standard no.9)
- e) The principles which are to be followed when awarding grants, loans or sponsorship (standard no. 10)
- f) The way in which opportunities to use Welsh language services are made known (standard nos. 3 and 11)
- g) Comparative information about the price charged - for text, communication or material with a price on it or for services for which a charge is made, based on the following criteria (standard no.12):
 - i. Welsh language
 - ii. English language
 - iii. Bilingual

3 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, i'r graddau y bônt yn rhai penodedig, rhaid cadw cofnodion manwl o'r trefniadau a osodwyd yn eu lle mewn cysylltiad â'r canlynol:

- a) Gwneud penderfyniadau polisi (safonau rhif 1-6), ac mewn perthynas â hwy:
 - i. rhaid cadw cofnodion o effeithiau penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu achosion o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
 - ii. rhaid cyhoeddi'r cofnodion ar ffurf adroddiadau mewn cysylltiad ag unrhyw asesiad y cyfeirir ato yn y safonau llunio polisi sy'n dangos bod yr effeithiau neu'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg yn sylweddol
- b) Strwythur a phroffil staffio gwasanaethau a mentrau newydd (safon rhif 7)
- c) Nifer a chanran y staff sy'n gymwys i wneud eu gwaith yn y Gymraeg (safon rhif 8)
- d) Y swyddi a ddynodwyd yn rhai Cymraeg hanfodol neu ddymunol a'r swyddi hynny nas dynodwyd yn rhai ag iddynt ofynion iaith (safon rhif 8)
- e) Trefniadau asesu'r angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff a darpariaethau i ymateb i'r angen a adnabuwyd (safon rhif 8)
- f) Trefniadau hybu a hwyluso gweithrediad y safonau ar draws y sefydliad gan gynnwys (safon rhif 9):
 - i. enw'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n unol â safonau penodedig
 - ii. cofnod o'r swyddogaethau y mae'r uwch swyddog yn gyfrifol am eu gweithredu fel y cyfeirir atynt yn y safon llunio polisi perthnasol
 - iii. paratoi a dosbarthu canllawiau
 - iv. cynnal rhaglen briffio
 - v. darpariaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd (gan ddefnyddio staff y sefydliad neu ddarparwyr allanol)
 - vi. cyfleusterau technoleg gwybodaeth a fwriadwyd i hwyluso defnyddio'r Gymraeg
 - vii. trefniadau arolygu ac adrodd
- g) Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned drwy gyfrwng mentrau penodol neu drwy bolisiâu cyffredinol (safon rhif 10)
- h) Hunaniaeth gorfforaethol (safon rhif 11).

In order to ensure compliance with policy making standards, to the extent to which they are specified, detailed records must be kept of the arrangements put in place in connection with the following:

- a) Making policy decisions (standard nos. 1-6), and in relation to them:
 - i. records must be maintained relating to the effects of policy decisions on opportunities for persons to use the Welsh language, or cases ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language, and
 - ii. records must be published in the form of reports in connection with any assessments referred to in the policy making standards that demonstrate that the effects or the likely effects on the Welsh language are considerable
- b) Staff structure and profile of new services and initiatives (standard no. 7)
- c) Number and percentage of staff competent to undertake their work in Welsh (standard no. 8)
- d) Posts identified as Welsh essential or desirable and those posts not specified as having linguistic requirements (standard no. 8)
- e) Arrangements to assess the need to develop the Welsh language skills of staff and provisions to respond to the identified need (standard no. 8)
- f) Arrangements for promoting and facilitating the implementation of standards across the organization including (standard no. 9):
 - i. the name of the senior officer responsible for ensuring that the organization operates in accordance with specified standards
 - ii. a record of the functions which the senior officer is responsible for implementing as referred to in the relevant policy making standard
 - iii. preparing and disseminating guidelines
 - iv. maintaining a briefing programme
 - v. translation and interpretation provisions (using staff within the organization or external providers)
 - vi. information technology facilities intended to facilitate the use of Welsh
 - vii. monitoring and reporting procedures
- g) Facilitating the use of Welsh in the community by way of specific initiatives or via policies in general (standard no. 10)
- h) Corporate image (standard no. 11).

4	<p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu, i'r graddau y bônt yn rhai penodedig, rhaid cadw cofnodion manwl o'r trefniadau a osodwyd yn eu lle mewn cysylltiad â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth y gwaith (safon rhif 1) b) Hysbysu am gyfleoedd a chodi ymwybyddiaeth (safonau rhif 2 a 3) c) Y camau cadarnhaol a gymerwyd i ddileu rhwystrau (safon rhif 4) d) Isadeiledd sefydliadol a chynhaliaeth i staff (safon rhif 5) <p>In order to ensure compliance with operational standards, to the extent to which they are specified, detailed records must be kept of the arrangements put in place in connection with the following:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Facilitating the use of Welsh in work and at work (standard no. 1) b) Notifying of opportunities and raising awareness (standard nos. 2 and 3) c) Positive steps taken to eliminate obstacles (standard no. 4) d) The organizational infrastructure and staff support (standard no. 5)
5	<p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a thraweffaith safonau hybu, i'r graddau y bônt yn rhai penodedig, rhaid cadw cofnodion manwl o'r trefniadau a osodwyd yn eu lle mewn cysylltiad â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned drwy gyfrwng mentrau penodol neu drwy bolisïau cyffredinol (safon rhif 1) b) Y camau cadarnhaol a gymerwyd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach (safon rhif 2) c) Cadw at safonau iaith penodedig pan yn ymwneud ag eraill gan gynnwys (safon rhif 3): <ul style="list-style-type: none"> i. gweithredu mewn partneriaeth, a ii. gweithredu swyddogaethau statudol a rheoleiddiol, a iii. gweithredu drwy drefniant arall <p>In order to ensure compliance with and the impact of the promotion standards, to the extent to which they are specified, detailed records must be kept of the arrangements put in place in connection with the following:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Promoting the use of the Welsh language in the community by way of specific initiatives or through policies in general (standard no. 1) b) Positive steps taken to promote and facilitate the broader use of the Welsh language (standard no. 2) c) Adhering to specified standards when dealing with others and including (standard no. 3): <ul style="list-style-type: none"> i. operating in partnership, and ii. operating statutory and regulatory functions, and

iii. operating through other arrangements

6 Rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â chwynion:

- a) Am gydymffurfiaeth person â safonau penodedig, neu
- b) Am gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys cofnod o:
 - i. natur y gŵyn
 - ii. y camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd i ymdrin â'r gŵyn
 - iii. unrhyw newidiadau i strategaethau neu gynlluniau neu weithdrefnau'r sefydliad a wnaed o ganlyniad i'r gŵyn, ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth person â safonau penodedig yn y dyfodol
- c) Rhaid i'r cofnodion gael eu cadw ar ffurf cofrestr a:
 - i. rhaid ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 6 mlynedd, a
 - ii. rhaid i ddarpariaeth fod yn ei lle i sicrhau bod y cwynion wedi'u dyddio a'u rhifo mewn modd sy'n dangos sut y cafodd y cofnod ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Records must be kept regarding complaints:

- a) About a person's compliance with specified standards, or
- b) Other complaints regarding the Welsh language, including a record of:
 - i. the nature of the complaint
 - ii. the action taken by the organization to deal with the complaint
 - iii. any amendments to the organization's strategy or plan or procedures that were deemed necessary as a result of the complaint, and in order to ensure a person's compliance with specified standards in future
- c) The records must be kept in the form of a register and :
 - i. must be kept in safe keeping for a period of 6 years, and
 - ii. provision must be in place to ensure that the complaints are dated and numbered in a way which demonstrates how the record was regularly updated.